Anawsterau wrth dalu'ch morgais

Beth sydd angen i chi ei wneud nawr a sut i roi trefn ar bethau

- Y camau i'w cymryd nawr
- Beth yw'ch opsiynau
- Cyngor diduedd am ddim

Mae **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn annibynnol. Sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl wneud y mwyaf o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chyngor ar forgeisi, rydyn ni'n cynnig gwybodaeth ar ystod eang o themâu ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

moneyadviceservice.org.uk/cy

Cyngor di-duedd am ddim
ar-lein
dros y ffôn

Yma i'ch helpu

Mae'r canllaw hwn ar eich cyfer chi os ydych chi'n cael anawsterau wrth ad-dalu'ch morgais. Mi fydd yn eich helpu i ddeall:

- pa gamau fedrwch eu cymryd nawr
- yr help sydd ar gael i chi
- beth yw'ch opsiynau, ac
- ac i ble y gallwch droi am gyngor a chymorth pellach.

Gweithredwch nawr a gadewch i ni'ch helpu chi i roi trefn ar eich morgais.

Cynnwys

Anawsterau wrth dalu: y cam cyntaf 2
Opsiynau ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion eich morgais 4
Opsiynau ychwanegol ar gyfer ôl-ddyledion morgais llog yn unig 6
Pethau i'w hosgoi 7
Gwiriwch a oes yna gymorth ariannol ar gael 8
Pan fetho popeth arall 9
Os yw'ch darparwr benthyciadau yn mynd â chi i'r llys 11
Cysylltiadau defnyddiol 12

Anawsterau wrth dalu: y cam cyntaf

Eich cynllun gweithredu

1 **Siaradwch â'ch darparwr benthyciadau morgais**
Hysbyswch eich darparwr o'r rheswm dros fethu talu'ch morgais. Bydd yn rhoi gwybod i chi pa opsiynau sydd ar gael ac fe fydd yna weithdrefnau yn eu lle ar gyfer delio ag achosion fel eich un chi. Bydd y canllaw hwn yn esbonio'r opsiynau yma i chi.

2 **Lluniwch gyllideb**
Rhestrwch eich incwm a'ch costau a blaenoriaethwch eich biliau – parhewch i dalu'r hyn fedrwch ei fforddio.
Gweler *Cyngor cyllido ariannol* ar dudalen 3.

3 **Mynnwch gyngor ar ddyledion di-dâl**
Os ydych chi'n pryderu fod eich trafferthion dyled yn mynd tu hwnt i reolaeth, gallwch gael cyngor a chymorth diduedd gan sefydliadau sy'n arbenigo mewn trafferthion ariannol.
Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

4 **Gwiriwch a oes gennych yswiriant diogelu taliadau morgais**
Edrychwch dros eich gwaith papur a holwch eich darparwr benthyciadau os ydych yn ansicr. Os oes, a bod eich polisi yn diogelu yn erbyn eich amgylchiadau, hawliwch yn syth.

Awgrym da

Byddwch yn ofalus o gwmnïoedd ag enwau camarweiniol sy'n ymddangos fel elusennau dyled ond busnesau ydynt mewn gwirionedd. Peidiwch byth â thalu am gyngor ar ddyledion. Defnyddiwch un o'n gwasanaethau di-dâl – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

Cyngor cyllido ymarferol

Dechreuwch roi trefn ar bethau heddiw drwy restru eich holl incwm a'ch gwariant. Defnyddiwch ein **Cynllunydd cyllideb** ar-lein yn **moneyadviceservice.org.uk/cynllunydd-cyllideb**

Eich morgais yw eich blaenoriaeth, felly dylai cardiau credyd ac unrhyw fenthyciadau eraill nad ydynt ynghlwm wrth eich cartref gael eu talu ar ôl hyn.

Edrychwch ar eich gwariant a rhannwch ef mewn i filiau hanfodol megis biliau cyfleustodau, Y Dreth Gyngor (neu Drethi yng Ngogledd Iwerddon) a biliau nad ydynt yn hanfodol.

Edrychwch i weld sut allwch leihau'r swm rydych yn ei wario ar y pethau rydych yn eu prynu yn rheolaidd. Defnyddiwch ein offer **Canfod arian yn gyflym** yn **moneyadviceservice.org.uk/canfod-arian-parod-yn-gyflym**

Diweddarwch eich cyllideb yn rheolaidd a chyfrifwch faint fedrwch dalu eich darparwr morgais a'i roi tuag at filiau hanfodol eraill.

Cofiwch

Mae talu'ch morgais yn flaenoriaeth achos os na allwch gynnal eich ad-daliadau gallech golli'ch cartref.

Opsiynau ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion eich morgais

Ceir sawl ffordd o fynd i'r afael ag ad-dalu ôl-ddyledion eich morgais. Siaradwch â'ch darparwr benthyciadau yn gyntaf i weld os allwch gytuno ar ddatrysiad. Rydyn ni wedi rhestru rhai opsiynau isod.

Eich opsiynau	Manteision, anfanteision a chwestiynau
Dechreuwch ad-dalu cyn gynted â phosibl	✔ Mi fydd yn rhatach yn y pendraw. ✖ Gall talu ôl-ddyledion yn gyflym olygu bod gennych lai o arian am ychydig.
Gwnewch daliadau ychwanegol	✔ Bydd ad-dalu ychydig yn fwy na'ch taliadau misol bob mis yn lleihau'ch dyled. ✖ Mae'n costio mwy i chi bob mis – gwnewch yn siŵr eich bod yn medru'i fforddio. ✖ Gall eich benthyciwr morgais ddweud wrthych nad ydych chi'n cynnig digon – talwch y swm ychwanegol beth bynnag gan ddweud wrthynt mai dyma'r cyfan rydych yn gallu fforddio.
Morgais ad-dalu – holwch a allwch ad-dalu'ch morgais dros gyfnod hirach	✔ Bydd hyn yn lleihau taliadau misol. ✖ Bydd rhaid i chi dalu am gyfnod hirach – efallai i mewn i'ch ymddeoliad. ✖ Byddwch yn talu fwy am eich cartref yn y pendraw.
Morgais llog yn unig – holwch a allwch ad-dalu'ch morgais dros gyfnod hirach	✔ Mae'n bosibl y gallech leihau'r taliadau i mewn i'r polisi gwaddol neu'r cynllun buddsoddi rydych yn ei ddefnyddio i ad-dalu'ch morgais ar ddiwedd y tymor. ✖ Ni fydd ymestyn eich morgais yn lleihau'ch taliadau llog i'r darparwr benthyciadau. ✖ Bydd rhaid i chi dalu am gyfnod hirach – efallai i mewn i'ch ymddeoliad. ✖ Byddwch yn talu fwy am eich cartref yn y pendraw.
Ychwanegwch yr ôl-ddyledion i gyfanswm gweddill y morgais – cyfalafwch yr ôl-ddyledion	✔ Mae hyn yn gwasgaru'r taliadau dros gyfnod y morgais. ✖ Bydd eich taliadau misol yn cynyddu. ✖ Bydd eich morgais yn cynyddu felly byddech yn talu mwy am eich cartref yn y pendraw. ✖ Bydd eich darparwr benthyciadau yn annhebygol o gytuno os nad ydych chi wedi cadw at eich cytundebau yn y gorffennol. ✖ Os yw cyfanswm yr ôl-ddyledion a gweddill y morgais yn dod i fwy na gwerth y tŷ bydd eich darparwr benthyciadau yn debygol o ddweud na.
Holwch a allwch oedi talu'ch ôl-ddyledion am gyfnod	✔ Os gallwch gwrdd â thaliadau eich morgais ond yn methu fforddio'r ôl-ddyledion mae hyn yn cadw eich taliadau misol yn wastad. ✖ Mae'r ôl-ddyledion dal i fod yn ddyledus a gall y ffioedd ynghlwm wrthynt godi.

Yn aml gall bod tu ôl arni gyda'ch taliadau arwain at daliadau ychwanegol. Golyga hyn y bydd eich dyled yn codi. Felly ewch i'r afael â'r ôl-ddyledion cyn gynted â phosibl.

Dydy hi byth yn rhy hwyr i ddechrau delio â'ch dyledion.

Opsiynau ychwanegol ar gyfer ôl-ddyledion morgais llog yn unig

Mae yna rai opsiynau ychwanegol i'w hystyried os oes gennych forgais gwaddol neu un sydd wedi'i gysylltu i fuddsoddiad.

Cymerwch egwyl dros dro o wneud taliadau

Gyda morgais wedi'i gysylltu i gynllun cynilo neu fuddsoddiad, megis polisi gwaddol, mae yna ddau daliad sydd rhaid i chi eu gwneud:

- y taliadau llog ar y benthyciad, a'r
- taliadau tuag at y polisi gwaddol.

Os na allwch fforddio'r ddau, holwch ddarparwr eich cynllun p'un ai fyddai'n bosibl rhoi'r gorau i'r taliadau am beth amser.

Bydd rhaid i chi drefnu â'r cwmni sut i wneud i fyny am yr ôl-groniad o daliadau unwaith i chi ailgychwyn eich polisi.

Gwerthu neu roi terfyn ar eich polisi gwaddol neu gynllun buddsoddi arall

Os yw'ch buddsoddiad neu'ch gwaddol wedi bod yn rhedeg am nifer o flynyddoedd, gall fod wedi casglu swm rhesymol y gallech ei ddefnyddio i ad-dalu eich ôl-ddyledion. Bydd hyn yn golygu gwerthu neu roi terfyn ar eich polisi neu gynllun.

Bydd rhaid i chi gymryd morgais ad-dalu neu ganfod ffordd arall o sicrhau eich bod yn ad-dalu'r arian a fenthycoch os byddwch yn rhoi terfyn ar eich polisi.

Cyn i chi roi terfyn ar eich polisi gwaddol neu gynllun buddsoddi arall

- Darganfyddwch ba opsiynau sydd ar gael i chi drwy drafod â'r darparwr benthyciadau a darparwr eich morgais.
- Meddyliwch yn ofalus cyn rhoi terfyn ar eich polisi gwaddol yn gynnar oherwydd gall ei werth fod wedi gostwng tipyn.
- Gwiriwch faint byddech yn derbyn oddi wrth eich darparwr gwaddol cyn penderfynu.

Pethau i'w hosgoi

Peidiwch â throi at fenthyciad i dalu'ch dyledion cyn mynnu cyngor

- Gall y benthyciadau yma fod yn ddrud iawn.
- Maen nhw'n aml yn defnyddio'ch cartref fel sicrwydd, sy'n ei roi mewn fwy o berygl os na fyddwch yn cynnal eich taliadau.

Os ydych yn ystyried cymryd benthyciad arall siaradwch â sefydliad cynghori ar ddyledion di-dâl yn gyntaf.

Peidiwch â chwtogi ar dreuliau hanfodol

Meddyliwch yn ofalus cyn i chi gwtogi neu roi gorau i dalu biliau hanfodol megis biliau cyfleustodau, y Dreth Gyngor ac yswiriant.

- Biliau cyfleustodau – Efallai y gallwch newid i ddarparwr ynni rhatach.
- Yswiriant – Gydag yswiriant cartref ac yswiriant bywyd, mae'n bwysig pwyso a mesur p'un ai bod gwario swm bach ar y premiwm yn well na'r perygl o fethu trwsio eich cartref neu ailosod eich eiddo petai rywbeth yn digwydd.

Gweler rhagor am yr opsiynau ar gyfer cynilion potensial. Chwiliwch am *'awgrymiadau cynilo arian'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Meddyliwch ddwywaith cyn dychwelyd yr allweddi

Meddyliwch yn ofalus cyn rhoi'r allweddi yn ôl i'ch darparwr morgais fel eu bod yn gallu gwerthu'r tŷ.

- Chi fydd yn gyfrifol am dalu'r morgais hyd nes y bydd yn cael ei werthu.
- Os caiff eich tŷ ei werthu am swm llai na'r hyn sy'n ddyledus, ni fydd eich morgais yn cael ei ad-dalu'n llawn a bydd rhaid i chi dalu'r gweddill.
- Gall y darparwr ofyn i chi am yr arian hwn hyd at chwe blynedd wedi'r gwerthiant (pum mlynedd yn yr Alban). Os ydyn nhw'n cysylltu â chi ynglŷn â'r gweddill ar ôl y chwe blynedd, mynnwch gyngor.
- Gall y bydd cael morgais yn anoddach yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod asiantaethau cyfeirio credyd yn storio gwybodaeth ynglŷn ag adfeddiant.

Mynnwch gyngor ar ddyledion di-dâl cyn i chi ddychwelyd unrhyw allweddi.

Gall asiantaethau cynghori ar ddyled di-dâl roi cymorth i chi, eich helpu i flaenoriaethu eich dyledion a threfnu eich cyllidebau

Gwiriwch i weld a oes cymorth ariannol ar gael

Cymorth gan y Llywodraeth

Gwiriwch i weld a ydych yn gymwys i gael budd-daliadau'r wladwriaeth neu gynlluniau'r llywodraeth.

- Darganfyddwch pa fudd-daliadau y gallech fod â hawl i'w cael trwy ddefnyddio cyfrifiannell fudd-daliadau ar **gov.uk/benefits-calculators**
- Os oes hawl gennych i dderbyn Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith, gallai'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith lleol eich helpu chi gyda'ch ad-daliadau morgais.

Mae faint o help y gallwch ei dderbyn a pha bryd y bydd yn dechrau yn dibynnu ar bryd y dechreuodd eich morgais ac am ba mor hir ydych chi wedi bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith.

Cymorth i bensiynwyr

Os ydych chi neu'ch partner wedi cyrraedd oed i fod yn gymwys am Gredyd Pensiwn, fe allech chi fod yn gymwys am fenthyciad Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais i dalu am eich taliadau llog ar forgais.

- Ewch i weld a allech chi fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn yn **gov.uk/pension-credit-calculator**

Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais (SMI)

Os ydych chi'n berchennog tŷ sy'n derbyn rhai budd-daliadau cysylltiedig ag incwm efallai y byddwch chi'n gallu cael cymorth tuag at daliadau llog ar:

- eich morgais
- benthyciadau a gymeroch ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau penodol ar eich cartref.

Gelwir hyn yn Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais ac fe'i cynigir fel benthyciad.

Fel arfer telir SMI yn uniongyrchol i'ch darparwr benthyciadau. Ni allwch gael cymorth tuag at y swm rydych wedi'i fenthyca – dim ond y llog.

Mae gwybodaeth bellach, opsiynau ar gyfer ad-dalu'r benthyciad ac i ganfod a ydych chi'n gymwys ar **moneyadviceservice.org.uk/cymorth-ar-gyfer-llog-ar-forgais**

Pan fetho popeth arall

Os na allwch fforddio eich taliadau morgais a dydych chi ddim yn credu bydd y sefyllfa hon yn newid yn yr hirdymor, efallai byddech yn ystyried gwerthu'ch cartref eich hun.

Gwerthu'ch cartref

Os allwch ddiweddaru'ch benthyciwr a gwneud popeth posibl i werthu'ch cartref, dylai'ch benthyciwr oedi gweithredu yn eich erbyn a rhoi cyfle teg i chi ei werthu.

- Gwiriwch a yw'ch benthyciwr yn cynnig cynllun Gwerthiant Gwirfoddol â Chymorth. Mae'n eich cynorthwyo i werthu'r eiddo a gall helpu gyda'r costau ynghlwm wrth werthu.
- Cyn i chi werthu'ch cartref, meddyliwch yn ofalus am ble fyddwch yn byw. Efallai na chewch chi gymorth gan eich cyngor lleol os ydynt yn amau eich bod wedi'ch gwneud yn ddigartref yn bwrpasol.

Gwerthu'ch cartref a'i rentu yn ôl

Gall rhai cwmnïoedd gynnig eich helpu os ewch mewn i drafferthion ariannol gydag ad-daliadau eich morgais trwy brynu'ch cartref ac yna'i rentu yn ôl i chi am gyfnod. Gelwir hyn yn gynllun gwerthu-a-rhentu'n-ôl.

Gall gwerthu'ch cartref fel hyn eich galluogi i glirio'ch dyledion ac aros yn eich cartref, ond gofalwch:

- byddwch, gan amlaf, yn derbyn llai na gwerth farchnad lawn eich cartref
- efallai bydd dal rhaid i chi adael wedi i gyfnod eich cytundeb rhentu ddod i ben
- gallech ddal gael eich troi allan os torrwch amodau eich tenantiaeth
- os yw'r person neu'r cwmni a brynodd eich cartref yn mynd mewn i drafferthion ariannol, gall yr eiddo dal gael ei adfeddiannu ac efallai bydd rhaid i chi adael.

Peryglon cynlluniau gwerthu-a-rhentu'n-ôl

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA) yn rheoleiddio cwmnïoedd sy'n gwerthu'r cynlluniau yma.

Os ydych yn ystyried cynllun gwerthu-a-rhentu'n-ôl, meddyliwch yn ofalus cyn dewis yr opsiwn hwn o achos y peryglon posibl sydd ynghlwm.

- Darllenwch ein **taflen wybodaeth ynglŷn â Chynllun gwerthu-a-rhentu'n-ôl** i'ch helpu i ddeall y canlyniadau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn delio â chwmni sydd wedi'i reoleiddio fel eich bod yn gallu defnyddio'r gweithdrefnau cwyno os aiff pethau o chwith.
- Gwiriwch Gofrestr yr FCA i weld a yw cwmni wedi'i reoleiddio yn **fca.org.uk/register**
- Siaradwch â sefydliad cynghori ar ddyledion di-dâl oherwydd gallant argymell opsiynau eraill – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

Trafferthion morgais: sut i wneud cwyn

Os tybiwch chi nad yw'r darparwr morgais neu'ch cwmni yswiriant yn delio â'ch achos yn deg, gallwch wneud cwyn.

Os ydych yn anhapus gyda'r ymateb, gallwch fynd â'r achos at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, sy'n gwbl annibynnol a byddant yn ymchwilio mewn i'r gŵyn ar eich rhan ac yn ddi-dâl.

- Chwiliwch am *'Datrys problem ariannol neu gŵyn'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Os yw'ch darparwr morgais yn mynd â chi i'r llys

Dylai'ch darparwr morgais fod yn awyddus i'ch helpu i drafod eich opsiynau a'ch helpu i osgoi colli'ch cartref cyn cyrraedd y cam hwn. Ond mae yna bethau gallech ei wneud o hyd os yw dyddiad wedi'i osod ar gyfer y gwrandawiad llys.

Cyn mynd â chi i'r llys, rhaid i'ch darparwr ddangos ei fod wedi:

- ystyried unrhyw gais oddi wrthoch i newid y modd rydych yn talu'ch morgais, ac
- wedi ymateb i unrhyw gynigion a wnaethoch i dalu.

Felly peidiwch â chladdu'ch pen yn y tywod ac anwybyddu'r gwaith papur – **dydy hi byth yn rhy hwyr i fynnu cyngor** gan asiantaethau cyngor ar ddyledion di-dâl a rhoi trefn ar bethau unwaith eto.

Hyd yn oed os yw'r darparwr yn cychwyn achos llys yn eich erbyn, ni fyddwch yn colli'ch cartref yn awtomatig. Dylai'r darparwr barhau i ymchwilio mewn i ffyrdd i chi dalu'ch morgais, felly dylech barhau i drafod gyda nhw a thalu cymaint ag y gallwch.

Paratoi ar gyfer y llys

Os gofynnir i chi fynd i'r llys, bydd un o'r cynghorwyr ar ddyled o un o'r sefydliadau a restrir yn *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12 yn gallu'ch helpu. Gallant helpu baratoi eich achos ac efallai y gallant eich cynrychioli.

- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r gwrandawiad llys**. Os na ewch chi, bydd eich darparwr yn debygol iawn o gael yr hawl i'ch troi chi allan.
- **Cyfrifwch eich cyllideb cyn mynd i'r llys**. Bydd y barnwr am wybod faint allwch fforddio ad-dalu. Defnyddiwch ein **Cynllunydd Cyllideb** i'ch helpu. Dewch o hyd iddo ar-lein yn **moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/cynllunydd-cyllideb**
- **Mynnwch weld swyddog ar ddyletswydd** os nad oes gennych gynghorwr ar ddyledion neu gyfreithiwr yn bresennol. Gallant eich helpu gyda'ch achos ac efallai y gallant eich cynrychioli. Mae eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.
- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y canlyniadau o unrhyw gynigion trefniant ad-dalu** gan eich darparwr tu allan i'r llys cyn i chi gytuno iddynt.
- **Cytunwch ar gynllun ad-dalu dim ond os ydych chi'n credu y gallech chi gadw ato** ar hyd gweddill tymor eich morgais.

Cysylltiadau defnyddiol

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl gwneud y mwyaf allan o'i arian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio'ch ymddeoliad a'ch dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor am ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a chynllunwyr, ewch i moneyadviceservice.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar 0800 138 0555

Typetalk 1800 1 0300 500 5000

Sefydliadau eraill sy'n cynnig cyngor cyfrinachol di-dâl all fod o help i chi os oes gennych broblemau ariannol.

Elusen Dyledion StepChange

Cyngor anhysbys dros y ffôn neu ar-lein. Cynlluniau rheoli dyledion di-dâl a datrysiadau dyledion eraill.
0800 138 1111
stepchange.org

Llinell Ddyled Genedlaethol

Cyfrinachol ac ar-lein. Cewch gynllun gweithredu wedi'i bersonoli ar eich cyfer i'ch helpu i ddelio â'ch dyledion.
0808 808 4000
nationaldebtline.org

Cyngor ar Bopeth

Cymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a thempledi o lythyron i'w hanfon i'ch darparwr.
citizensadvice.org.uk/cymraeg/

PayPlan.com

8yb to 8yp Dydd Llun i Ddydd Gwener
9yb to 3yp Dydd Sadwrn
0800 280 2816
payplan.com

Housing Rights Service

0300 323 0310
housingadviceni.org

Debt Action Gogledd Iwerddon

0800 917 4607
adviceni.net/advice/debt

Unwaith i chi ymchwilio mewn i'ch opsiynau gyda'r asiantaethau cyngor ar ddyledion di-dâl, efallai y byddech eisiau rhagor o wybodaeth ynglŷn â'ch opsiynau. Gallwch gael mwy o gyngor ar faterion penodol o'r ffynonellau hyn.

Cyngor lleol

Bydd eich cyngor lleol yn gallu'ch cynghori ar p'un ai ydych chi'n gymwys i hawlio Budd-dal Tai os ydych chi am werthu'ch cartref ac yna rhentu.

Swyddfa Canolfan Byd Gwaith

Gall eich swyddfa leol eich hysbysu os ydych chi'n gymwys ar gyfer unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth – edrychwch drwy'ch llyfr ffôn neu ar-lein am fanylion.

Cyfrifiannell budd-daliadau

I gael syniad o'ch taliad posib ewch i **betteroffcalculator.co.uk**

Offeryn canfod cyngor ar ddyledion

Defnyddiwch ein hofferyn **Canfod cyngor ar ddyledion** i ddod o hyd i wasanaeth cynghori ar ddyledion sy'n addas ar eich cyfer chi.

Ewch i moneyadviceservice.org.uk/cy/dyledion

the Money Advice Service

the Money Advice Service

Anawsterau wrth dalu'ch morgais yw un o'r canllawiau sydd ar gael o'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol. I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau ac i fynnu gopi, ewch i

moneyadviceservice.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim

Llinell Gymorth Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. I'n helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaeth, gall galwadau cael eu recordio neu eu monitro.

Gwybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg (Ebrill 2018). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018
© Gwasanaeth Cynghori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: PPYM_Apr18_Edition1_Welsh